# CYNGOR TREF PORTHMADOG

## COFNODION PWYLLGOR EIDDO A DATBLYGU
## 7 yh nos Fawrth Ionawr 27 2026

1. **Presennol:**
Cyng. Gwilym Jones (Cadeirydd), Cyng. Dr. Melfyn Edwards (Is-gadeirydd), Cyng. Glenda Murray, Cyng. Jeremy Davies, Cyng. Alwyn Gruffydd.
Elfyn Lewis (Clerc).
**Ymddiheuriadau:**
Cyng. Carol Hayes, Cyng. Llywelyn Rhys, Cyng. Karena Owens, Cyng. Aled Griffith
**Absennol:**
Cyng. Edward Naish. Cyng. Michael Roberts

2. **Cae Pawb.**
Roedd rhywun neu rhywrai wedi bod yng Nghae Pawb dros penwythnos Ionawr 24ain ac wedi creu difrod i oddeutu chwech o blotiau. Mi roedd yr heddlu yn ymwybodol o'r drosedd ac wedi ymweld a'r safle i gasglu tystiolaeth a hefyd i rannu cyngor ar sut y gellir gwella diogelwch ar y safle.
Trafodwyd y posiblrwydd o wella'r diogelwch ar y safle. Ystyriwyd cael goleuadau solar, camerau a giat uwch ar y mynedfa.
Roedd dros hanar y tenantiaid wedi talu eu harian rent yn barod.
Roedd Pwyllgor newydd tenantiaid Cae Pawb am gyfarfod yn nechrau Chwefror.

3. **Llwybrau.**
Roedd y Clerc wedi trafod gyda Chyngor Gwynedd y mater a godwyd gan Y Cyng. Jeremy Davies ynglyn a pham nad oedd y llwybr rhwng Stryd Ralph a Heol Merswy ym Morth-y-Gest yn cael ei dori er ei fod ar y rhestr. Nid oedd Y Clerc wedi cael ateb i'r ymholiad.
Gofynwyd i'r Clerc drafod Llwybr Coed Borth gyda Cyngor Gwynedd.

4. **Cae Bodawen**
Roedd dau o'r seddi ar y siglen yn beryglus i'w defnyddio. Gan nad oedd hi'n werth gwario £700 ar eu newid oherwydd bod Y Grid Cenedlaethol yn dechrau gweithio ar y safle yn Mis Mehefin, gofynwyd i'r Clerc drefnu eu bod yn cael eu cymeryd oddi yno rhag ofn i aelod o'r cyhoedd gael damwain wrth eu defnyddio.

5. **Bryn Coffa**
Dim i'w adrodd.

6. **Llochesi Bws**
Y Clerc i gysylltu gyda'r cwmni glanhau i drafod cytundeb glanhau y llochesi.

7. **Cerflun Mr Madocks**
Roedd pryder wedi ei fynegi am y crac yn y cerflun pren.
Penderfynwyd i ofyn i'r Clerc edrych i fewn i'r mater.

8. **Goleuadau Nadolig**
Roedd adroddiad manwl o gyflwr y goleuadau Nadolig wedi ei dderbyn gan y cwmni trydannol R.J. Electrics.
Roedd y goleuadau newydd ar y coed yn Y Parc wedi bod yn llwyddiannnus gyda sawl aelod o'r cyhoedd wedi nodi eu bod yn drawiadol.
Trafodwyd y posiblrwydd o gael coeden electrig yn Y Parc erbyn Nadolig 2026.
Nododd Y Cyng. Alwyn Gruffydd bod lleoliad y goeden yn Y Parc ddim yn addas a dylid ystyried cael lleoliad mwy amlwg erbyn Nadolig 2026.
Penderfynwyd i'r Clarc ddechrau ar trefniadau Nadolig 2026 cyn gynted a phosib'.

*Elfyn Lewis (Clerc/Clerk),39 Heol Fadog, Porthmadog,Gwynedd,LL49 9BU*
*Ffôn / Tel : 01766 514210*
*E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com*